# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref y Bala: Nos Iau Mehefin 6, 2013

**966**. *Croeso.* Yn absenoldeb y Maer yn dilyn ymweliad a'r ysbyty croesawodd y dirprwy faer, y Cyng. Ivora Jones, bawb i'r cyfarfod.
Yn bresennol y Cynghorwyr Ivora Jones, Islwyn Pritchard-Jones, Alun Price, Dilwyn T. Jones, Eifion Roberts, John C. Williams, Edith Roberts, y Cynghorydd Sir, Dilwyn Morgan a'r Clerc.

**967. Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Sharon Evans, Shan Ranson, Luned Jones, Dorothi Evans, Dilys Evans.
**968. Datgan Buddiant:** Neb.
**969. Cofnodion, Mai 2, 2013**,. Cynigwyd bod y cofnodion yn gywir a'i harwyddo.

**970. Materion yn codi o'r cofnodion**
a) **Dwr Cymru.**. Y Maer Dorothi Evans a'r Dirprwy Ivora wedi mynychu'r agoriad swyddogol yn Llidiardau. Cafwyd adroddiad gan y Dirprwy Faer am weithgaredd y diwrnod diddorol.
b) **Tro Trefol.** Cafwyd caniatad i dalu y swm ddyledus o £800 i Grwp Twristiaeth Y Bala a Phenllyn pan gafwyd yr anfoneb.
c) **Y Domen.**
Mae'r Domen yn awr yn agored – ond os bydd unrhyw broblemau gyda ieuenctid yn creu trafferth – yna bydd yn rhaid cloi y giat

**971. Materion gan y Cynghorydd Sir, Dilwyn Morgan.**
Ynglyn a mater mynediad i siop sydd yn uchel – Nid yw yn fater i'r Cyngor Sir. Mae yn dibynnu ar faint y siop a hefyd y pellter o'r pafin. Awgrymwyd y dylid i'r person gysylltu a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Person.
Gwaith ger Ysgol Beuno Sant. Cytundeb wedi eu wneud a'i arwyddo. Dylid bod y gwaith yn cael ei wneud yn y pythefnos nesaf.
Goleuadau traffig ger Derwen Stores. Y Cynulliad yn cymeryd dau fis cyn cael ymateb.

972. **Rhestr Asedau.** Y Cyng. Edith Roberts wedi bod o amgylch ac yn awgrymu y dylid ail beintio mainc yn Blaenddol

**973. Cynllunio**
NP/53/L234A. Estyniad cefn ac adeiladu garej ar wahan yng nghefn 103 Stryd Fawr. Y cais yma wedi ei ganiatau.
NP5/53/437A Cynnig diwygio amod rhif 3 o ganiatad NP5/53/437 dyddiedig 10/4/2003 i gadw offer presennol (mast telathrebu ac offer cysylltiedig) ar y safle am 10 mlynedd ychwanegol yn Ffatri Aykroyd's a'i Feibion. Nid oedd gwrthwynebiad.
NP/53/170D Diwygio amod rhif 4 o ganiatad cynllunio NP5/53/170C dyddiedig 23/05/2005 i gadw offer Vodafone (mast ac offer cysylltiedig) ar y safle am 10 mlynedd ychwanegol ar safle Gweithdy A. G. Evans, Stad Ddiwydiannol, Y Bala. Nid oedd gwrthwynebiad.

**974. Materion Ariannol**
Cafwyd caniatad i dalu y canlynol:
1. Partneriaeth Penllyn. Trosglwyddo £17,270.97 a hefyd TAW £1266.50 i gyfrif y Bartneriaeth

Arwyddwyd………………………………………………..Maer

Arwyddwyd ……………………………………………….Clerc

2. Vodafone £5.20
3. Ad-daliad i Iona Roberts, cyn-glerc o £102.64 (gor-daliad PAYE)
4. Hill a Roberts, Cyfrifwyr 85 Stryd Fawr Y Bala. £60.00 ffi PAYE 2012-13
5. Aeron Jones – clerc – cyflog 2 fis Ebrill a Mai 2013 - £643.08.

**975. Gohebiaeth**

a. Parc Cenedlaethol Eryri. Diwrnod agored Mehefin 11 yn y Pencadlys, Penrhyndeudraeth. Gofyn i'r Maer a yw yn gallu mynychu.

b. Cyngor Gwynedd. Gwaharddiad Defnydd dros dro – Llwybr Troed Cyhoeddus rhif 1 yn Nhref Y Bala. Daw i rym ar 17 Mehefin. Ceisir cwblhau'r gwaith o fewn tua 1 mis.

c. Gwaharddiad a Chyfyngiad aros - ffordd ddi-ddosbarth Stad Ddiwydiannol Y Bala – ger Ffatri Y Cake Crew a Bala Body Repair. Cafwyd adroddiad yn esbonio'r sefyllfa gan y Cynghorydd Sir, Dilwyn Morgan.

ch) Hysbysiad Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol UnLlais Cymru yn Llanelwedd ar Hydref 5ed. Y Cyng. Islwyn Pritchard-Jones yn fodlon mynychu. Yr enw i fod mewn cyn 26/7/13 i gael gostyngiad.

d) E bost gan Paul a Lindsay Robinson yn canmol staff y Co-op Y Bala a hefyd cyflwr y ffyrdd i'w cymharu a Lloegr. Anfon copi i Co-op a hefyd i'r Cynghorydd Sir.

dd) Rhaglen waith mis Mehefin gan adran Priffyrdd Gwynedd.

e) Anfon at y Clwb Pel-droed i'w llongyfarch ar eu llwyddiant ysgubol yn cyrraedd cystadleuaeth Cwpan Europa.

f) Mantolen Banc ras Llyn Tegid. Y Cyngor yn dal i dderbyn y rhain. Gofyn i Mr. Huw Antur am arweiniad yn y mater.

ff) Gwefan. Cafwyd gwybod y bydd llythyr i ddod gan y Cyngor Sir yn dweud y bydd i fyny i hyd at £500 tuag at wefan. Hwn i'w drafod eto.

**965. Unrhyw fater arall**

1. Signal bocs ar y Grin. Hwn wedi ei beintio yn ddiweddar – ond mae ei gyflwr yn fregus.
2. Dau bolyn fflagiau – y ddau bolyn eisiau ei peintio. Y Cynhorydd Sir i wneud ymholiadau.
3. Trelar yn cael ei glymu i goeden yn stad Bro Eryl. YClerc i wneud mwy o ymholiadau.

Arwyddwyd……………………………………………..Maer

Arwyddwyd …………………………………………….Clerc